


ADEILADU TRADDODIADOL


Bydd y safon yn amrywio gyda'r math o garreg sydd ar gael ac ansawdd yr adeilad. Gwaith cerrig afreolaidd di-gwrs sy'n fwyaf cyffredin.




RWBEL LLENWI
y tu mewn wedi'i lenwi gyda cherrig mân neu bridd

CARREG LECHI

Gellir hepgor y croen gwaith bloc a defnyddio cerrig ar gyfer y trwch cyfan os mai dim ond cerrig mawr sydd ar gael




Ffrâm ffenestr wedi'i gosod yn ôl o wyneb y wal




ADEILADU NEWYDD - GWAITH CERRIG AFREOLAIDD DI-GWRS

Dylai'r uniadau gwely fod yn llorweddol ond nid yn llinell ddi-dor. Dylid gosod cerrig unigol "ar eu gwelyau" ac nid "ar eu cyllyll". Dylid defnyddio cerrig/lechi wedi'u hollti ar gyfer silliau a linteli.


PANEL PRAWF - dylid darparu un o'r rhain er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei gymeradwyo gyntaf, nid llai na 2m², cyn i unrhyw waith adeiladu ddechrau.



Dylid gosod rendr allanol hyd at y gornel i osgoi pilaster o waith cerrig ar y wal gyswllt



Mae cerrig wedi'u gosod "ar eu cyllyll" yn creu effaith "pafin gwallgo" nad yw'n dderbyniol



PWYNTIO - uniad wedi'i rwbio neu wedi'i frwsio gan ddefnyddio pwti calch neu fortar calch hydrologig, yn dibynnu ar y math o garreg a ddefnyddir. Dylai'r tywod fod yn dywod concret graeanog wedi'i raddio'n dda neu'n ro cwrs i gyd-fynd â phwyntio waliau cerrig gerllaw. Ceiswch osgoi tywod coch

Gall peintio â gwyngalch liniaru effaith waliau fel hyn sy'n bodoli eisoes